Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

# Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

(Drafft)

## Fersiwn Hawdd ei Ddeall








Rhowch wybod i ni beth yw eich barn am y newidiadau yr ydym yn eu cynllunio ar gyfer sut all pobl deithio o amgylch gogledd Cymru.

Ysgrifennwyd y ddogfen hon gan Uchelgais Gogledd Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru'.

# Tabl Cynnwys


Tabl Cynnwys ..... 2

1. Beth sy'n cael ei drafod yn yr adroddiad hwn? ..... 3
2. Beth ydym ni eisiau ei newid? ..... 4
3. Ein polisïau a'n prosiectau ..... 5
   - Rheilffyrdd ..... 5
   - Cefnffyrdd ..... 6
   - Bws ..... 6
   - Coetsis a Chludiant Cymunedol ..... 7
   - Cerdded, Olwyno a Beicio ..... 7
   - Porthladdoedd a Chludo Llwythi ..... 8
   - Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio ..... 9
   - Mynediad i Feysydd Awyr ..... 9
   - Cysylltedd Digidol ..... 10
   - Ymddygiad Teithio ..... 10
   - Integreiddio rhwng gwahanol ddulliau teithio ..... 11
   - Cynllunio Defnydd Tir ..... 12
4. Dogfennau Cefnogol ..... 12
   - Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol ..... 12
   - Monitro a Gwerthuso ..... 13
   - Arfarniad Llesiant Integredig ..... 13
5. Dweud eich dweud ..... 14

# 1. Beth sy'n cael ei drafod yn yr adroddiad hwn?

Mae trafnidiaeth yn bwysig iawn yng ngogledd Cymru. Mae'n ein cysylltu â swyddi, ysgolion, gofal iechyd, siopa a gweithgareddau hwyliog.

Hefyd, mae trafnidiaeth yn helpu i gysylltu busnesau gyda chwsmeriaid, yn dod â thwristiaid i atyniadau, ac yn danfon nwyddau.

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru drafft yn cynnwys polisïau a phrosiectau i wella teithio yn y rhanbarth. Bydd yn helpu gyda'r penderfyniadau ynghylch pa wasanaethau trafnidiaeth a gwelliannau trafnidiaeth y dylem dalu amdanynt dros y 5 mlynedd nesaf.

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft wedi cael ei ysgrifennu gan Uchelgais Gogledd Cymru, ac mae hwn yn sefydliad rhanbarthol sydd â phwerau tebyg i gynghorau lleol.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cynrychioli chwe chyngor: Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, a Wrecsam, ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

## 2. Beth ydym ni eisiau ei newid?

Bydd y newidiadau yn golygu:

- Y bydd yn fwy diogel i deithio drwy gerdded, olwyno, beicio ac ar gludiant cyhoeddus. Mae olwyno yn golygu teithio mewn ffordd sy'n defnyddio lle ar y palmant ac ar gyflymder tebyg i gerdded. Nid yw'n cynnwys defnyddio e-sgwter neu feic.
- Bydd gwasanaethau cludiant cyhoeddus yn fwy fforddiadwy
- Bydd y bysiau a'r trenau yn fwy dibynadwy ac yn rhedeg yn fwy aml
- Bydd yn haws newid rhwng gwahanol ddulliau trafnidiaeth
- Bydd bysiau a threnau yn well i'r amgylchedd
- Bydd yn haws cyrraedd y gwaith, ysgol, coleg neu brifysgol
- Bydd yn haws gweithio o adref a chynllunio teithiau gan ddefnyddio'r rhyngrwyd neu ffôn clyfar

# 3. Ein polisïau a'n prosiectau

Mae polisïau yn dweud beth ydym ni eisiau ei wneud er mwyn gwella trafnidiaeth yng ngogledd Cymru. Mae prosiectau yn newidiadau yr ydym ni eisiau eu gwneud i wasanaethau a chyfleusterau trafnidiaeth.

Mae ein polisïau a'n prosiectau wedi'u grwpio o amgylch gwahanol fathau o drafnidiaeth. Mae'r rhain i'w gweld isod.

## Rheilffyrdd

Mae rheilffyrdd gogledd Cymru yn cael eu rheoli gan Lywodraeth y DU drwy Network Rail. Nid oes gan awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru unrhyw reolaeth dros y gwasanaethau na'r cyfleusterau rheilffordd.

Fel rhan o'r newidiadau, rydym eisiau gweld gwelliannau yn cael eu gwneud i:

- Prif Lein Gogledd Cymru a Gorsaf Caer
- Lein y Gororau a Padeswood
- Cyfnewidfa Gorsaf Shotton
- Gorsaf newydd ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy
- Lein Amwythig – Wrecsam – Caer
- Leiniau Dyffryn Conwy ac Arfordir Cambria

## Cefnffyrdd

Mae'r cefnffyrdd yng ngogledd Cymru yn briffyrdd 'A', sy'n cael eu rheoli gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru. Nid oes gan awdurdodau lleol unrhyw reolaeth dros y ffyrdd yma.

Fel rhan o'r newidiadau, rydym eisiau gweld:

- Gwaith cynnal a chadw a gwelliannau mawr, er mwyn ei gwneud yn fwy diogel a lleihau tagfeydd ac oedi ar y ffyrdd

- Gwell cysylltiadau ar draws y Fenai

## Bws

Rydym eisiau bysiau sy'n amgylcheddol gyfeillgar, gyda cherbydau dim allyriadau, neu allyriadau isel.

Rydym eisiau gweld mwy o fysiau yn cysylltu mwy o lefydd, gyda gwasanaethau yn rhedeg o leiaf bob awr rhwng y prif drefi o 7am i 10pm, ac arosfannau bws ymhob pentref a phentrefan.

Bydd gwasanaethau bws lleol yn cysylltu pentrefi â threfi mawr o leiaf deirgwaith y dydd.

Byddwn yn cefnogi Llywodraeth Cymru gyda Masnachfreinio Bysiau. Mae hon yn ffordd newydd o reoli gwasanaethau bws, lle bydd yr awdurdod lleol neu Drafnidiaeth Cymru yn cymryd rheolaeth dros gynllunio a gweithredu llwybrau, amserlenni a phrisiau tocynnau bws.

## Coetsis a Chludiant Cymunedol

Gall teithio ar goets fod yn opsiwn yn lle teithio ar drên ar deithiau hir ac fe all coets gysylltu llwybrau lle nad yw'r bysiau yn teithio arnynt.

Mae opsiynau trafnidiaeth hyblyg, fel cludiant cymunedol, yn bwysig mewn ardaloedd gwledig. Rydym yn cefnogi gwasanaethau 'Fflecsi' a 'Galw a Theithio'.

Rydym yn cefnogi gwneud y gwasanaethau bws Sherpa'r Wyddfa yn barhaol a chreu cysylltiadau gwell atynt gyda bysiau a'r rheilffordd.

Hefyd, rydym eisiau gwasanaethau coets ar deithiau hir rhwng y trefi a'r dinasoedd sydd ddim yn cael eu gwasanaethu gan drenau, er mwyn ei gwneud yn haws i bawb fedru teithio.

Byddwn yn gweithio gyda gyrwyr tacsi a chwmnïau tacsi i'w hannog i yrru cerbydau allyriadau isel a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.

## Cerdded, Olwyno a Beicio

Rydym eisiau i gerdded, olwyno a beicio fod yn opsiynau hawdd i bawb, yn cynnwys pobl mewn ardaloedd gwledig.

Drwy wneud hyn, bydd yn hawdd i deithio i wasanaethau, ysgolion a mannau gwaith lleol, a chysylltu â rhwydweithiau bws neu reilffyrdd ar gyfer teithiau pellach.

Fel rhan o'r newidiadau, rydym eisiau gweld:

- Gwneud mwy o welliannau i lwybrau a chyfleusterau 'teithio llesol', fydd yn ei gwneud yn fwy diogel a chyflym i deithio drwy gerdded, olwyno a beicio
- Cefnogi llogi beiciau, e-feiciau ac e-sgwteri mewn ffordd saff a fforddiadwy

## Porthladdoedd a Chludo Llwythi

Mae symud y cynnyrch yr ydym yn ei brynu ar y môr, ar y ffyrdd ac ar y rheilffyrdd yn bwysig i'n heconomi ac mae'n ein helpu i gael y pethau yr ydym eu hangen a'u heisiau i gyrraedd stepen ein drws.

Fel rhan o'r newidiadau, rydym eisiau gweld:

- Datblygu porthladdoedd i ddenu swyddi a'i gwneud yn haws i symud nwyddau o le i le
- Gwella cyfleusterau i yrwyr HGV i'w gwneud yn fwy diogel a haws i ddanfon nwyddau
- Datblygu cyfleusterau hydrogen a chyfleusterau gwefru cerbydau trydan i annog y defnydd o gerbydau nwyddau allyriadau isel neu ddim allyriadau
- Cefnogi'r newid o gludo llwythi ar y ffyrdd i'r rheilffyrdd, i helpu i leihau tagfeydd a llygredd

## Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio

Rydym eisiau i bobl yng ngogledd Cymru ac ymwelwyr deithio mewn ffyrdd cynaliadwy. Ond, rydym yn gwybod y bydd nifer o deithiau yn dal i gael eu gwneud mewn car, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Rydym eisiau ffyrdd diogel, sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda, ac sy'n addas heddiw ac yn y dyfodol. Byddwn yn gwneud y defnydd gorau o'r ffyrdd sydd gennym ar hyn o bryd drwy eu cynnal a'u cadw ac annog teithio drwy ddulliau allyriadau isel i leihau effaith amgylcheddol ceir.

Rydym eisiau i'n strydoedd a'n hardaloedd deimlo'n saff a byddwn yn adolygu gofod parcio cyhoeddus mewn canol trefi, gan ystyried lleoliadau a chostau priodol.

Hefyd, byddwn yn cefnogi clybiau ceir a chynlluniau rhannu ceir gan nad yw pawb angen car / yn medru fforddio car.

## Mynediad i Feysydd Awyr

Mae tri maes awyr rhyngwladol yn Lloegr sy'n agos i ogledd Cymru: Maes Awyr John Lennon Lerpwl, Maes Awyr Manceinion a Maes Awyr Birmingham.

Yng ngogledd Cymru mae gennym Faes Awyr Môn, a oedd yn arfer cynnal cysylltiad â Chaerdydd, a Maes Awyr Penarlâg, sy'n cefnogi gweithrediadau Airbus yn Sir y Fflint.

Rydym eisiau gwella mynediad i'r meysydd awyr, gan ganolbwyntio ar wella gwasanaethau cludiant cyhoeddus.

## Cysylltedd Digidol

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i 30% o weithlu Cymru weithio y tu allan i swyddfa draddodiadol. Bydd hyn yn rhoi mwy o opsiynau i bobl o ran lle maen nhw'n gweithio. Y nod yw helpu canol trefi, lleihau traffig a thorri allyriadau carbon.

Mae gwell cysylltedd digidol a chyfleoedd gweithio o bell yn cefnogi teithio cynaliadwy ac yn lleihau'r angen i deithio.

Fel rhan o'r newidiadau, rydym eisiau gweld:

- Hybiau gweithio o bell yn cael eu hyrwyddo
- Gwella mynediad at addysg llythrennedd digidol
- Cyflwyno gwybodaeth ddigidol ac amser real am wasanaethau cludiant cyhoeddus

## Ymddygiad Teithio

Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod gan bobl yng ngogledd Cymru fwy o opsiynau o ran sut maen nhw'n teithio. Mae hyn yn golygu creu amodau da o ran dewisiadau teithio, tra'n meddwl am yr effeithiau ar ein heconomi, yr amgylchedd, y gymdeithas a diwylliant.

Rydym eisiau i bobl wneud dewisiadau teithio mwy cynaliadwy drwy roi dewisiadau i bobl o ran sut maen nhw'n teithio, yn cael mynediad at wasanaethau ac addysg.

Rydym eisiau rhoi mwy o ddewis i bobl mewn ardaloedd gwledig, yn ogystal ag mewn ardaloedd trefol.

Byddwn yn ei gwneud yn haws i bobl gael mynediad at wybodaeth i wneud dewisiadau teithio mwy cynaliadwy.

Byddwn yn helpu pobl i fwynhau ein hatyniadau ymwelwyr drwy ddefnyddio cludiant cyhoeddus, gan gefnogi'r diwydiant twristiaeth.

## Integreiddio rhwng gwahanol ddulliau teithio

Yn aml, mae angen defnyddio mwy nag un math o drafnidiaeth wrth deithio o le i le. Rydym angen ei gwneud yn haws i bobl yng ngogledd Cymru ddefnyddio gwahanol fathau o drafnidiaeth ar un trip. Mae hyn yn golygu creu rhwydwaith cludiant cyhoeddus gyda mwy o opsiynau i gwrdd ag anghenion pawb.

Bydd hyn yn cynnwys gwella integreiddiad bysiau a rheilffyrdd a chael gwell cysylltedd rhyngddynt, ynghyd â gwell cysylltiadau cerdded, olwyno a beicio i orsafoedd.

Hefyd, byddwn yn gwella ac yn datblygu cynlluniau parcio a theithio, a pharcio a rhannu.

Bydd cael tocynnau y mae modd eu defnyddio ar wahanol fathau o drafnidiaeth, a gwell amserlenni bws a thrên, yn ei gwneud yn haws newid rhwng gwahanol fathau o drafnidiaeth.

### Cynllunio Defnydd Tir

Dylai cynllunio ganolbwyntio ar ddatblygu canol ein dinasoedd a'n trefi cyn adeiladu safleoedd newydd mewn lleoliadau sydd heb gysylltiadau trafnidiaeth da.

Wrth ystyried datblygu economaidd, trafnidiaeth a chynllunio defnydd tir gyda'i gilydd, bydd hyn yn ein helpu i wneud gwell penderfyniadau am gynlluniau adfywio a datblygiadau newydd. Er enghraifft, byddwn yn cefnogi tai newydd ger gorsafoedd trên a bws fel na fydd pobl yn dibynnu ar eu ceir.

## 4. Dogfennau Cefnogol

Mae dogfennau ac asesiadau eraill sy'n cefnogi'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'u paratoi, ac maen nhw'n rhoi mwy o wybodaeth am ein cynlluniau. Mae hyn yn cynnwys ein:

### Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol

Mae hwn yn nodi ac yn blaenoriaethu cynlluniau'r awdurdodau lleol fydd yn helpu i gyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Rydym wedi gweithio gydag awdurdodau lleol a Thrafnidiaeth Cymru i ystyried 268 o gynlluniau i'w cyflawni yn y tymor byr, canolig a hir.

Bydd yr arian ar gyfer y prosiectau yma yn dod o wahanol ffynonellau, er enghraifft, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a chyfleoedd eraill am arian.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei gwneud yn haws i awdurdodau lleol gael mynediad at arian drwy ddod â'r gwahanol ffynonellau ariannu at ei gilydd.

## Monitro a Gwerthuso

Bydd y Cynllun Monitro a Gwerthuso yn ein helpu i dracio ein cynnydd o ran cyrraedd ein nodau a'n deilliannau.

Mae'n cynnwys mesurau penodol gyda data a thargedau gwella hyd at 2030.

Byddwn yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i awdurdodau lleol i roi diweddariadau cynnydd ac ystyried unrhyw ddatblygiadau newydd neu gyfleoedd ariannu.

Bob blwyddyn byddwn yn cynhyrchu adroddiad ar ein perfformiad i Lywodraeth Cymru, a phob tair blynedd byddwn yn cwblhau adolygiad manwl i'n helpu i ystyried a ydym angen gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol.

## Arfarniad Llesiant Integredig

Mae angen Arfarniad Llesiant Integredig fel rhan o Ganllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru. Mae'r Arfarniad yn dangos sut mae ein polisïau yn cyfrannu at lesiant, ac mae hyn yn cael ei gefnogi gan yr asesiadau effaith yr ydym wedi'u gwneud i ystyried materion megis yr amgylchedd, iechyd, cydraddoldeb a bioamrywiaeth.

# 5. Dweud eich dweud

Gallwch weld ein cynlluniau ac ymateb i'n hymgynghoriad drwy lenwi holiadur ar-lein, sydd ar gael yn ein hystafell arddangos rithwir yma: https://northwalesregionaltransportplan.virtual-engage.com/

Neu gallwch lawrlwytho ffurflen **yma** ac e-bostio eich ymateb i northwalesregionaltransportplan@arup.com.

Neu, ysgrifennwch atom a phostiwch gopïau wedi'u printio o'r holiadur i ni. Ond nid ydych chi angen stamp, y cwbl sydd angen ei wneud yw ysgrifennu'r isod ar amlen: FREEPOST UGC / ANW

Os hoffech siarad efo ni am ein cynlluniau, gallwch hefyd ein ffonio ar:

01172 405 350.

Gallwn anfon copïau papur o'n Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru drafft a'r Holiadur i chi ar gais - anfonwch e-bost atom ni, neu gadewch neges ar ein gwasanaeth ffôn gan ddefnyddio'r rhif uchod.